Ydych chi'n cael trafferthion wrth ddarllen y cylchlythyr hwn? Edrychwch arno yn eich porwr.

bwletin gweinyddiaeth etholiadol

Rhifyn 209 (Cymru) – 14 Mawrth 2018

Gwerthu'r gofrestr etholiadol

Mae sawl ymholiad wedi dod i law ynghylch cyfrifo'r ffioedd i'w codi ar gyfer gwerthu'r gofrestr etholiadol, ac roeddem am achub ar y cyfle i geisio esbonio'r mater hwn ymhellach.

Gwnaethom roi cyngor ar hyn yn flaenorol ym Mwletin 173, a oedd yn atgyfnerthu'r canllawiau a nodir yn Rhan 4 – Cynnal y gofrestr drwy gydol y flwyddyn.

O dan y gyfraith, mae'n ofynnol i bob Swyddog Cofrestru Etholiadol gynnal cofrestr o etholwyr seneddol ar gyfer pob etholaeth neu ran o etholaeth yn ei ardal. Mae'n ofynnol i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd gynnal cofrestr o etholwyr llywodraeth leol a'i chyfuno â'r gofrestr seneddol lle bynnag y bo'n ymarferol.

Ffioedd ar gyfer y gofrestr lawn

Nodir y ffioedd ar gyfer y gofrestr etholiadol neu unrhyw hysbysiadau newid yn y ddeddfwriaeth. Mae'r ffioedd penodedig canlynol yn gymwys wrth werthu copïau o bob cofrestr:

- Data – £20 yn ogystal â £1.50 ar gyfer pob 1,000 o gofnodion (neu'r rhan sy'n weddill o 1,000 o gofnodion) sydd ynddi.
- Argraffedig – £10 yn ogystal â £5 ar gyfer pob 1,000 o gofnodion (neu'r rhan sy'n weddill o 1,000 o gofnodion) sydd ynddi.

Mae'r ffi o £20 ar gyfer copi data neu'r ffi o £10 ar gyfer copi papur yn gymwys i bob cofrestr gyfan y mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn ei chynnal, ac nid yw'r ddeddfwriaeth yn caniatáu i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gyfrifo ffioedd ar wahân ar gyfer dosbarthiadau pleidleisio sy'n dod o dan y gofrestr. Felly, er enghraifft, os ydych yn cynnal cofrestrau dwy etholaeth seneddol, mae'r ffi o £20 yn gymwys ar wahân i gofrestr pob etholaeth.

Y Comisiwn Etholiadol

Cynnwys

Gwerthu'r gofrestr etholiadol

Esboniad pellach o'r ffordd y caiff ffioedd eu cyfrifo ar gyfer gwerthu'r gofrestr etholiadol.

Cyhoeddir Bwletinau Gweinyddiaeth Etholiadol yn rheolaidd. Fe'u defnyddir fel un ffordd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol o'r Bwletinau ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma.

Gallwch hefyd danysgrifio i'r *Bwletinau Gweinyddiaeth Etholiadol*.

Cofiwch roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau o ran staff yn eich tîm. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein rhestrau dosbarthu yn gyfredol.

Nid yw'r ddeddfwriaeth yn caniatau codi unrhyw ffioedd gweinyddol neu ategol.

Mae'n rhaid cyflenwi'r gofrestru os cewch chi gais dilys. Mae'r rhwymedigaeth i gyflenwi'n codi pan fo'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn fodlon bod y sawl sy'n gwneud cais â hawl i dderbyn y gofrestr. Gall methu â chyflenwi'r gofrestr etholiadol pan fo gofyn effeithior ar etholwyr unigol gan bod y wybodaeth sy'n cael ei defnyddio gan asiantaethau gwirio credyd i wirio ceisiadau am gredyd.

Ffioedd ar gyfer hysbysiadau newid misol
Mae'r un egwyddor yn gymwys i bob hysbysiad newid.

Os bydd cais yn dod i law i brynu cofrestr lawn ac unrhyw hysbysiadau newid sy'n newid y gofrestr honno ac sydd wedi cael eu cyhoeddi cyn i'r cais ddod i law, caiff y gofrestr a'r hysbysiadau eu trin fel un ddogfen at ddibenion cyfrifo'r ffi. Mae hyn yn golygu bod y ffi o £20 yn cynnwys y gofrestr lawn a'r holl hysbysiadau newid y gofynnwyd amdanynt sydd eisoes wedi cael eu cyhoeddi.

Pan fydd cais yn dod i law sy'n cynnwys unrhyw hysbysiadau newid i'w cyhoeddi ar ôl i'r cais ddod i law, caiff y ffi o £20 ei chodi hefyd ar gyfer pob hysbysiad newid dilynol y gofynnir amdano.

.....

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929
Ffôn testun: 18001 020 7271 0500
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
www.comisiwnetholiadol.org.uk
(h) Y Comisiwn Etholiadol 2018